# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 18FED HYDREF 2017 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Mrs B.A. Jones – Cadeirydd (Llywyddu)

Cynghorwyr:

C.J. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) a Mrs E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Harry (Cyfarwyddwraig Gorfforaethol - Cymunedau)

Hefyd yn Bresennol:

J. Jones (Rheolwraig Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol), P. Lewis (Pennaeth TG Dros Dro), M. Headington (Rheolwr Gwasanaethau Cludiant a Mannau Gwyrdd), S. Ellis (Arweinydd Cynhwysiant ac ADY), J. Southcombe (Rheolwraig Gwasanaethau Ariannol), K. Cole (Prif Swyddog Addysg) S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Mrs P.A. Marsden (Addysg a Chyflawniad) a D.V. Poole (Arweinydd) a C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), N. Scammell (Cyfarwyddwraig Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a A151) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol).

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiadau o ddiddordeb ar ddechrau nac yn ystod y cyfarfod.

### 3. CABINET - 4YDD HYDREF 2017

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Hydref 2017 (rhifau cofnod. 1-6) - a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 4. DIWYGIAD DIOGELU DATA

Roedd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau ar 3ydd Hydref 2017, yn rhoi gwybodaeth i'r Cabinet am ofynion y diwygiad diogelu data i ddod a gweithredu corfforaethol i fynd i'r afael â'r gofynion.

Nodwyd bod Llywodraeth y DU yn ddiweddar wedi cyflwyno Bil Diogelu Data drafft i Dŷ'r Arglwyddi i ddisodli Deddf Diogelu Data 1998 a darparu fframwaith cyfreithiol cynhwysfawr ar gyfer diogelu data yn y DU, gan ategu gofynion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR ) a fydd yn uniongyrchol berthnasol yn y DU o 25ain Mai 2018.

Cynghorwyd y Cabinet am effeithiau allweddol o ddiwygio diogelu data fel y nodwyd yn yr adroddiad. Nodwyd y byddai'r newidiadau yn gosod mwy o ofyniad am atebolrwydd a Phreifatrwydd drwy Ddylunio, a gofynion. Mae mwy o hawliau hefyd ar gyfer pynciau data, gan gynnwys hawliau i wybod beth fydd y Cyngor yn ei wneud â'u data, ac amserlenni adrodd tynnach, gan gynnwys adrodd torriadau gorfodol o fewn 72 awr. Cyfeiriwyd Aelodau hefyd at Bolisi Rheoli Risg Gwybodaeth y Cyngor a atodwyd i'r adroddiad, sydd wedi'i ddiweddaru i ymdrin â gofynion diogelu data newydd, ac mae'n ymgorffori nifer o newidiadau, megis hyrwyddo'r defnydd o Asesiadau Effaith Preifatrwydd pan fo angen, ac amlder adroddiadau ar Gofrestrau Risg Gwybodaeth Ardal Gwasanaeth i'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn newid o chwarterol i bob chwe mis.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddogion am yr adroddiad manwl a gofynnodd am ragor o wybodaeth am y rhaglen hyfforddi sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth newydd, i liniaru'r risg o dorriad. Esboniodd swyddogion y bydd y maint o hyfforddiant yn cael ei ail-lansio yn flynyddol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o ofynion diogelu data, er mwyn sicrhau bod staff yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) nodi gofynion y diwygiad diogelu data a gweithredu corfforaethol sydd i ddod i fynd i'r afael â'r gofynion hyn;

(ii) cymeradwyo'r Polisi Rheoli Risg Gwybodaeth diwygiedig a atodir i'r adroddiad.

## 5. FFIOEDD CLADDU PLANT

Roedd yr adroddiad yn gofyn am farn y Cabinet ar sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol ledled Cymru mewn perthynas â mabwysiadu ymagwedd gyson at ffioedd claddu plant.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod yr adroddiad o ganlyniad i'r ymgyrch ddiweddar a arweinwyd gan Carolyn Harris (AS Dwyrain Abertawe) i ddileu taliadau a osodir gan Awdurdodau lleol ar gyfer claddu plant.

Ar 1af Chwefror 2017, penderfynodd y Cabinet dynnu ffioedd claddu plant hyd at, ac yn cynnwys, 16 oed. Fodd bynnag, byddai costau ynghlwm wrth brynu Hawliau Claddu Unigryw a ddewiswyd gan y teulu sy'n galaru.

Nodwyd bod yr Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu bod pob Cyngor yn cytuno i roi'r gorau i godi ffioedd am gladdu neu amlosgi plant a mabwysiadu diffiniad cyffredin o blentyn sy'n cynnwys plant hyd at 18 mlwydd oed.

Fodd bynnag, mae llawer iawn o waith yn ofynnol rhwng swyddogion a Llywodraeth Cymru i sefydlu pa ffioedd y dylid eu cynnwys ac a oes unrhyw amodau neu gyfyngiadau. Mae barn gyffredin i'w sefydlu yn yr hyn a gynhwysir yn/a olygir gan y “tynnu ffioedd”.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog: -

(i) mae'r Awdurdod yn ymrwymo i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ar ffurfio'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â chladdedigaethau plant;

(ii) unwaith bod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth terfynol yn cael ei ddrafftio, cyflwynir adroddiad pellach i'r Cabinet.

## 6. DATBLYGU GWASANAETH CYFUNEDIG SYNHWYRO A CHYFATHREBU (SENCOM)

Gofynnodd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes ar 26ain Medi 2017, am gymeradwyaeth y Cabinet i drosglwyddo Gwasanaeth Nam ar y Golwg Gwent, a gynhelir ar hyn o bryd a'i reoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC), ar ran y pum Awdurdod Lleol yng Nghonsortiwm De Ddwyrain Cymru i Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Ar hyn o bryd mae Torfaen yn cynnal a rheoli'r Gwasanaeth Nam ar y Clyw a'r Timau Ymyrraeth Cyfathrebu ar ran y rhanbarth.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar yr holl ganlyniadau ymgynghori a wnaed rhwng Tachwedd 2016 a Mehefin 2017 mewn perthynas â'r cynnig. Nodwyd bod yr adborth yn gyffredinol yn gadarnhaol gyda staff y gwasanaeth yn nodi buddion megis mwy o hyblygrwydd, defnydd mwy effeithlon o adnoddau a chyllidebau cyfun, fodd bynnag, roedd rhai o'r bygythiadau a nodwyd yn cynnwys y posibilrwydd o golli systemau TG, cysoni disgrifiadau swyddi a thelerau ac amodau. Ar ôl ymgynghori â chydweithwyr y trydydd sector, roedd yr adborth yn bositif a theimlwyd bod yr amserlenni'n ddigonol i sicrhau pontio a pharhau'r gwasanaeth yn esmwyth, gan ddarparu y lleiaf o amharu ar Ddefnyddwyr Gwasanaeth.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion i drosglwyddo'r Gwasanaeth Nam ar y Golwg (VI) i CBS Torfaen.

## 7. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET

Roedd yr adroddiad yn ceisio cadarnhad BlaenRaglen Waith y Cyngor am gyfnod o Hydref 2017 i Ionawr 2018.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r Blaenraglen Waith arfaethedig ar gyfer adroddiadau Cabinet yn y dyfodol.

Mae Blaenraglen Waith y Cabinet yn cael ei diweddaru yn rheolaidd er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau sy’n cael eu gwneud iddi ers iddi gael ei chytuno yn gyntaf ar yr 22ain o Ionawr 2014.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod rhai newidiadau ac eitemau ychwanegol wedi'u hychwanegu at y Rhaglen ers cyhoeddi'r adroddiad ac amlygwyd y rhain gan y Swyddog cyflwyno.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn yr adroddiad, ac yn ddarostyngedig i newidiadau a amlinellwyd yn y cyfarfod, i gymeradwyo a chyhoeddi Blaenraglen Waith y Cabinet. .

Terfynwyd y cyfarfod am 2.30 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 1af Tachwedd 2017.

______________________

CADEIRYDD